ucm cymru
undeb cenedlaethol y myfyrwyr
nus wales
national union of students

2il Lawr
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL
ff 02920 435 390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk

2nd Floor
Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL
t 02920 435 390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk

# Datganiad i'r wasg

**Datganiad UCM Cymru – Adolygiad Diamond**

Yn dilyn y cyhoeddiad a wnaed heddiw, mae UCM Cymru am weld system gyllido sydd ag ehangu mynediad fel un o'i hegwyddorion ac sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i addysg.

Roeddem yn croesawu'r argymhellion a wnaed gan Syr Ian Diamond ym Medi. Maent yn mynd i'r afael â'r materion hynny sy'n effeithio ar fyfyrwyr a theuluoedd yng Nghymru. Byddai pecyn cynhaliaeth wrth galon y cynllun, ynghyd ag ymrwymiad i fyfyrwyr ag anableddau a'r rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn golygu y gallai mwy o bobl fynd i'r brifysgol. Ynghyd â hyn, roeddem yn croesawu'r argymhelliad oedd yn cynnig cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig a rhan-amser, darpariaeth sydd ddim ar gael ar hyn o bryd i bobl yng Nghymru.

Mae UCM Cymru'n awyddus i weld argymhellion Syr Ian Diamond yn cael eu gweithredu'n llawn, ac o'r herwydd rydym yn derbyn y newyddion gan Lywodraeth Cymru heddiw â theimladau cymysg. Er ein bod yn falch o weld ymrwymiad i ganfod datrysiad hir-dymor a chynaliadwy i gyllido ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru, buasem yn siomedig pe bai'r trothwy'n cael ei ostwng i £59,200. Gyda chostau byw'n cynyddu a'r posibilrwydd o gynnydd pellach yn dilyn 'Brexit', nid yw pobl sy'n byw mewn cartrefi sydd ag incwm dros £59,000 bob amser yn byw'n foethus, a gallai hyn olygu bod rhai teuluoedd yn ei chael yn anodd cynnal un neu fwy o blant yn byw oddi cartref.

Mae ymchwil gan UCM Cymru'n dweud wrthym fod costau byw yn rhwystr sylweddol i addysg. Os yw myfyrwyr yn ei chael yn anodd talu rhent a biliau, cwrdd â chostau teithio a phrynu bwyd, yna bydd eu llesiant yn dioddef a bydd mwy ohonynt yn gadael y brifysgol cyn gorffen eu cyrsiau. Mae'n hanfodol fod hyn yn cael ei ddatrys os ydym am weld rhagolygon yn gwella ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i mewn i addysg.

Dywedodd Llywydd UCM Cymru, Fflur Elin, 'Mae ein haelodaeth yn cynnwys myfyrwyr sy'n gallu cael mynediad i addysg. Mae angen i ni ystyried y bobl sy'n cael eu darbwyllo rhag ymgeisio, neu'n wir sydd heb y dyhead i fynd i'r brifysgol yn y lle cyntaf. I lawer o bobl, mae gallu talu costau byw tra byddant yn astudio tu hwnt i unrhyw bosibilrwydd...

'Yng Nghymru, rydym angen system addysg uwch sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn byw ynddynt; mae gennym lawer o bobl yn byw mewn cartrefi incwm isel, felly mae addysg yn llwybr allan o dlodi ac mae'n caniatáu symudedd cymdeithasol. Mae'r pecyn cynhaliaeth sy'n

Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr (y Dernas Unedig). Rhif Cwmni 08015198. | National Union Of Students (United Kingdom). Company No. 08015198.

adlewyrchu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn ystod y tymor ar gyfer myfyrwyr o'r cefndiroedd tlotaf yn gam blaengar...

'Cred UCM Cymru fod addysg o fudd i gymdeithas ac mae'n gwella'r economi. Oherwydd hyn, nid ydym yn credu y dylai fod rhaid i'r unigolyn dalu cost llawn addysg. O'r herwydd, bydd UCM Cymru bob amser yn gweithio tuag at yr egwyddor o addysg ddi-dâl. Serch hynny, dan agenda lymder San Steffan, ni all Cymru ond defnyddio pa bynnag gyllidebau a roddir iddi...

Bydd UCM Cymru'n dechrau proses ymgynghori ag undebau myfyrwyr yng Nghymru er mwyn sicrhau y gallwn adlewyrchu'r aelodaeth ehangaf posib yn ein hymateb.

**DIWEDD**

**Nodiadau i olygyddion**

Cyswllt UCM Cymru:
Claire O'Shea, Rheolwr Materion Allanol: claire.oshea@nus-wales.org.uk neu 07584 631232

Mae Llywydd a Dirprwy Lywydd UCM Cymru, Fflur Elin a Carmen Smith ar gael am gyfweliad

**Ynglŷn ag UCM Cymru**

Mae UCM Cymru yn gyd-ffederasiwn o undebau myfyrwyr sy'n cynrychioli dros 300,000 o fyfyrwyr y wlad. Fel yr unig lais sy'n cynrychioli myfyrwyr yng Nghymru, mae UCM Cymru'n cynrychioli myfyrwyr ym mhob undeb myfyrwyr sy'n perthyn i UCM yn y sectorau AU ac AB; mae'r rhain yn cynnwys wyth sefydliad addysg uwch a phob coleg addysg bellach yng Nghymru.

Mae UCM Cymru yn bodoli er mwyn hyrwyddo, amddiffyn ac ymestyn hawliau myfyrwyr a datblygu a chefnogi undebau myfyrwyr cadarn. Rydym yn brwydro yn erbyn rhwystrau i addysg; rhoi grym i fyfyrwyr i ffurfio profiad dysgu o ansawdd uchel a'r byd o'u cwmpas; yn ogystal â chynorthwyo undebau myfyrwyr dylanwadol, democrataidd sydd ag adnoddau digonol.

Yn ogystal ag ymgyrchu ar ran ein haelodau, mae UCM Cymru'n darparu ystod o hyfforddiant i undebau myfyrwyr, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer swyddogion llawn amser, swyddogion rhan amser a staff. Rydym yn darparu cefnogaeth i undebau myfyrwyr er mwyn sicrhau y gallant ymgysylltu'n gadarnhaol â'r datblygiadau polisi diweddaraf sy'n effeithio arnynt.

Prif werthoedd UCM Cymru yw democratiaeth, cydraddoldeb a chyfunoliaeth. Credwn y dylai mudiad myfyrwyr gael ei arwain gan fyfyrwyr a bod addysg o fudd i'r unigolyn ac i gymdeithas.

# Press statement

**NUS Wales statement – Diamond Review**

Following today's announcement, NUS Wales wants to see a funding system that has widening access as a principle and addresses barriers to education.

We welcomed the recommendations made by Sir Ian Diamond in September. They address the issues that affect students and families in Wales. A generous maintenance package at the centre with commitments to students with disabilities and caring responsibilities, would see more people being able to go to university. Alongside this we welcomed the recommendation that offered support to Post-graduate and part time students, provision that is currently lacking for people in Wales.

NUS Wales would like to see Sir Ian Diamond's recommendations implemented in full and it is with mixed feelings we receive the news from the Welsh Government today. While we are pleased that there is a commitment to find a long term and sustainable funding solution for Higher Education in Wales, we would also be disappointed to see the threshold reduced to £59,200. With increasing cost of living and potential further increases following 'Brexit' people living in households where income is over £59,000 are not always living in relative wealth, this could leave some families struggling to support one or more children living away from home.

NUS Wales research tells us that the cost of living is a huge barrier to education. If students struggle to cover the cost of rent, food, bills and transport, then they will have poorer wellbeing and higher drop out rates. It is essential that this is addressed if we want to see prospects improve for young people entering education.

NUS Wales President Fflur Elin said 'Our membership is made up of students who are in a position where they are able to access education. We need to consider the people who are put off applying or indeed don't even aspire to university in the first place. For many people being able to meet the cost of living while studying is beyond the realms of possibility…

'In Wales we need a higher education system that reflects the communities in which we live, we have many people living in low income households, education is a route out of poverty and into social mobility. A maintenance package that reflects National Living Wage earnings during term time for those from the poorest backgrounds is a progressive one…

'NUS Wales believes that education benefits society and improves the economy. Because of this we do not think that the full cost of education should be met by the indivdual. Therefore NUS Wales will always work towards the principle of free education. However under Westminster's austerity agenda, Wales can only use the budgets that are given to them…

NUS Wales will begin a consultation process with students' unions in Wales to ensure we are able to reflect the widest membership possible in our response.

**ENDS**

**Notes to editors**

NUS Wales contact:
Claire O'Shea, External Affairs Manager: claire.oshea@nus-wales.org.uk or 07584 631232

NUS Wales President, Fflur Elin and Deputy President Carmen Smith are available for interview

**About NUS Wales**

NUS Wales is a confederation of students' unions representing more than 300,000 students in the nation. As the only representative voice for students in Wales, NUS Wales represents students from all affiliated students' unions in both HE and FE sectors, this includes 8 HE institutions and all Welsh FE Colleges.

NUS Wales exists to promote, defend and extend the rights of students and develop and champion strong students' unions. We fight barriers to education; empower students to shape both a quality learning experience and the world around them; as well as supporting influential, democratic and well-resourced students' unions.

As well as campaigning on behalf of our members, NUS Wales provides a range of training to students' unions including training for full-time offices, part-time officers and staff. We provide support to students' unions to ensure they are able to engage positively with the latest policy developments that affect them.

The core values of NUS Wales are democracy, equality and collectivism. We believe that student organisations should be student-led and that education is a benefit to the individual and to society.